



Ffôn/Tel: 01970 624811
Ffacs/Fax: 01970 625830
E-bost/E-mail: admin@penglais.org.uk
Gwefan/Website: www.penglais.org.uk

Waunfawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AW

Mai 2024

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd y Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth (32.5 awr) yn Ysgol Penglais. Mae'r swydd hon yn gofyn am ymagwedd feddylgar ac aml-dasg at y diwrnod gwaith. Fe fyddwch yn ymuno â'r ysgol mewn amser cyffrous wrth i ni fyw ein gweledigaeth yr ysgol.

'Mae Ysgol Penglais yn ysgol hapus, uchelgeisiol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.' Rydym yn gweithio'n galed gyda staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau fod Ysgol Penglais yn ffynnu i fod yr ysgol arbennig y mae'r gymuned yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n barhaus i gyrraedd y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a safon dysgu ac addysgu.

Mae gennym gorff o staff profiadol sydd yn gweithio'n galed tra'n llwyddo i greu naws cynorthwyol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion eisiau llwyddo yn uchel ac eisiau cael eu herio a'u cefnogi i wneud hynny. Mae yna lawer o anghenion gwahanol yn yr ysgol ac mae'r adran gynhwysol yn gweithio'n galed ar draws yr ysgol i gefnogi'r disgyblion pan bo'r angen. Mae'r 6ed ddsbarth yn gryf gyda tua 230 o ddisgyblion ac yn cyrraedd safonau uchel iawn.

Wrth ymuno ag Ysgol Penglais, fe fyddwch yn cael eich cefnogi yn broffesiynol i gyrraedd rhagoriaeth yn eich swydd. Gallaf addo i chi brofiad heriol ond a fydd yn y pendraw yn brofiad gwerthfawr wrth i ni symud ymlaen i fod yn ysgol ragorol.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn yn rhoi darlun o'r ysgol i chi. Pe dymunech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helena Clements ar hcl@penglais.org.uk neu ffoniwch 01970 624811.

Yn gywir,

M. A. Hughes.

Pennaeth



Pennaeth / Headteacher:- Ms Mair Hughes



GWELEDIGAETH YSGOL PENGLAIS: Anelu am Ragoriaeth

Mae Ysgol Penglais yn un hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn gymuned gynhwysol gref, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Wrth ddatblygu ein sgiliau annibynnol a gweithio gyda staff, teuluoedd ac eraill yn y gymuned fe wnawn lwyddo a chyflawni ein gorau. Mae'r ysgol yn gymuned egniol gyda myfyrwyr a staff yn cydweithio, yn dysgu, yn meddwl ac yn gweithio'n galed. Rydym yn galluogi ein disgyblion i wynebu heriau ac yn cydnabod fod hyn yn allweddol i'w datblygiad unigol. Wrth ddatblygu dewrder, hyder, gwytnwch, annibyniaeth a goddefgarwch bydd ein myfyrwyr yn dod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd.

GWERTHOEDD YSGOL PENGLAIS

Bod yn barchus a charedig

Bod yn uchelgeisiol a gwydn

**Datblygu annibyniaeth, hyder
a chyfrifoldeb**

**Croesawu amrywiaeth a dathlu
llwyddiannau**

**Bod yn ddinasyddion balch a
gweithgar yn ein cymunedau**



Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth Gradd 6 scp 7 - 10 £24,294 - £25,545 pro rata (32.5 awr yr wythnos, amser tymor yn unig) Cyfnod penodol, am Blwyddyn yn unig.

Rydym yn awyddus i benodi Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth brwdfrydig i ymuno a thîm y chweched ddosbarth. Byddwch yn gweithio gyda'r tîm chweched ddosbarth a staff eraill i gefnogi myfyrwyr i gyrraedd eu gallu academaidd a phersonol gorau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn mwynhau gweithio gyda'n staff a phobl ifanc i sicrhau fod myfyrwyr yn derbyn y gefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i ddatblygu i fod yn unigolion uchelgeisiol, aeddfed a medrus. Byddwch yn sicrhau fod pob disgybl yn llwyddo'n uchel ac yn datblygu eu hyder, a'u cefnogi i fod yn barod i gychwyn ar fywyd ar ôl ysgol yn llwyddiannus. Byddwch yn ymrwymedig i ddarganfod ffyrdd cynhwysol i ysbrydoli myfyrwyr ac i wella cyfleoedd bywyd ein myfyrwyr oll.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymgeisydd uchelgeisiol gael chwarae rôl allweddol i sicrhau datblygiad y myfyrwyr yn y chweched dosbarth ac felly yn cyfrannu at daith Ysgol Penglais i fod yn ysgol ardderchog. Bydd y swydd yn dechrau ym Mis Medi.

Mae gan Ysgol Penglais lawer i'w gynnig:

- ysgol sydd yn gwella'n gyflym gyda pherthnasau da rhwng staff a disgyblion
- ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol staff er mwyn cyrraedd rhagoriaeth
- agos i dref Prifysgol bywiog Aberystwyth
- wedi ei leoli ar arfordir bendigedig bae Ceredigion, ardal o hyfrydwch naturiol

Am fwy o fanylion, cysylltwch a Helena Clements (PA i'r Pennaeth) ar 01970 624811 neu drwy e-bost hcl@penglais.org.uk

Mae Ysgol Penglais yn ymrwymedig i ddiogelu ac annog budd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn disgwyl i holl staff a gwirfoddolwyr rannu yr ymrwymiad hwn. Bydd raid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ymgeisio am DBS a'r archwiliadau eraill sydd yn addas ar gyfer y swydd.

Mae Ysgol Penglais yn gyflogwr sydd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal.

Dyddiad cau: 20/05/2024

Cyfweliadau: 24/05/2024

Swydd Ddisgrifiad – Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth

Teitl Swydd:	Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth
Graddfa Cyflog:	Grade 6 scp 7 - 10 £24,294 - £25,545 pro rata
Oriau ac wythnosau:	32.5 awr yr wythnos, amser tymor yn unig, Cyfnod penodol, am Blwyddyn yn unig
Yn atebol i:	Pennaeth Chweched Dosbarth

Pwrpas Craidd:

- I gefnogi myfyrwyr i gyrraedd eu potensial academaidd a phersonol yn y 6ed dosbarth
- I gefnogi myfyrwyr gyda gweithgareddau all ac uwch-gyrsiol

Prif gyfrifoldebau	Prif dasgau
I gefnogi myfyrwyr i gyrraedd eu potensial academaidd a phersonol yn y 6ed dosbarth	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu cynnydd myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 sydd wedi'u neilltuo, gan ganolbwyntio ar eu dysgu, cyrhaeddiad, trefniad, nodiadau, sgiliau astudio, datblygiad personol, technegau adolygu, posibiliadau gyrfa ac ymchwil a pherthnasoedd cymorth gyda'r athrawon a rhieni/gofalwyr • Sefydlu a monitro mwy o gymorth i fyfyrwyr pan fo angen e.e. pan fo nhw'n disgyn ar ôl, maen nhw'n anghyfoes, neu'n profi problemau iechyd meddwl, gyda sgysiau archwilio a sensitif cysylltu â'r Pennaeth y Chweched Dosbarth • Defnyddio systemau a phrosesau monitro/olrhain Chweched Dosbarth i olrhain cynnydd myfyrwyr • Cymorth cyflwyno/cyfnod tro i'r Chweched Dosbarth • Defnyddio adnoddau Unifrog a VESPA i gefnogi datblygiad myfyrwyr. • Defnyddio data ALPS i fonitro cyrhaeddiad myfyrwyr a targedu'r rhai sy'n gofyn am gymorth ychwanegol • Cefnogi myfyrwyr o dramor a'r rhai sydd ag anableddau neu broblemau cymdeithasol i gael mynediad at gyfleoedd yn yr ysgol ac mewn Addysg Trawsgludo • Cysylltu â rhieni i gynorthwyo myfyrwyr mewn trafferthion am unrhyw reswm trwy ffon, e-bost ac wyneb yn wyneb • Cefnogi myfyrwyr mewn pob agwedd ar eu bywydau academaidd a phersonol • Cefnogi athrawon wrth erlid gwaith cyn a ôl dyddiadau cau • Cysylltu â hathrawon a Phenaethau'r Adran ynglŷn â myfyrwyr penodol neu athrawon sydd â phroblemau penodol gyda dosbarth • Rheoli amgylchedd y Chweched Dosbarth, gan sicrhau amgylchedd gwaith cynhyrchiol yn ystafelloedd astudio i fyny a lawr grisiau, a chefnogi gyda materion TGCh/cwpiwyg • Mynychu digwyddiadau ar ôl ysgol fel yr ymgeiswyr Open Evening, UCAS

I gefnogi myfyrwyr gyda gweithgareddau all ac uwch-gyrsiol	<ul style="list-style-type: none"> • Annog myfyrwyr i wneud cais am amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli priodol, a monitro i sicrhau eu cynnydd • Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwneud â chyfleoedd SEREN, gan gysylltu â threfnwyr SEREN ac yn mynd gyda myfyrwyr i weithdai a chynadleddau • Cefnogi Pennaeth y Chweched Dosbarth wrth gynllunio a darparu gweithgareddau Cyfoethogi ar gyfer blwyddyn 12 a 13
Arall	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yn ymwybodol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu plant, iechyd a diogelwch, diogelwch a chyfrinachedd, gan adrodd unrhyw bryderon i'r swyddog diogelu plant • Bod yn ymwybodol o gefnogi amrywiaeth a sicrhau cyfleoedd cyfartal. • Gwerthfawrogi a chefnogi rôl gweithwyr proffesiynol eraill • Mynychu ac ymrysu mewn cyfarfodydd perthnasol • Cyfrannu at hyfforddiant ac at weithgareddau dysgu eraill a datblygiad perfformiad yn ôl yr angen • Cynorthwyo gyda goruchwylio disgyblion y tu allan i oriau gwersi e.e. clybiau, gweithgareddau allgyrsiol • Dangos agweddau/ disgwyliadau TGCh priodol fel model • Cysylltu â'r holl staff y Chweched Dosbarth i sicrhau cyfathrebu da / cymorth holistaidd i fyfyrwyr • Ymgymryd ag ydyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â statws y swydd fel y bydd yn cael eu pennu o bryd i'w gilydd gan y Pennaeth Ysgol

Nid yw'r disgrifiad swydd o angenrheidrwydd yn ddiffiniad llawn o'r swydd. Mi fydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, a gall cael ei addasu ar unrhyw adeg ar ôl ymgynghoriad gyda'r person yn dal y swydd .

Manyleb Person - Hyfforddwr Dysgu Chweched Dosbarth

Cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> • TGAU Saesneg a Mathemateg Gradd C neu'n uwch (neu gymhwyster cyfwerth) • Gradd mewn pwnc cysylltiedig • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio mewn ysgol / coleg / prifysgol • Profiad o weithio gyda phlant a phobol ifanc
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i ddefnyddio technoleg yn effeithlon • Cywirdeb a llygaid ar gyfer manylion • Sgiliau rheoli amser da, y gallu i flaenoriaethu , y gallu i fod yn hyblyg ac i gadw'n ddigynnwrf o dan bwysau • Sgiliau trefnu a gweinyddol da • Sgiliau cyfathrebu da gyda phlant ac oedolion
Galluoedd	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i reoli llwyth gwaith, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu yn synhwyrol • Y gallu i ystyried anghenion eich hunan ar gyfer y swydd a dod o hyd i'r cyfleoedd i ddysgu • Y gallu i weithio yn adeiladol ac yn hyblyg fel rhan o dim, gan ddeall rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol a'ch rhai chi o fewn hyn • Y gallu i weithio'n dda gyda myfyrwyr ac oedolion
Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Parodrwydd i ddatblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth broffesiynol gan fynychu cyrsiau a hyfforddiant priodol • Agwedd hyblyg, amyneddgar a gweithgar ar gyfer gweithio fel rhan o dîm



	<ul style="list-style-type: none">• Arddangos ymrwymiad tuag at ddiogelu plant ac amddiffyn plant• Arddangos ymrwymiad tuag at gyfleoedd cyfartal• Presenoldeb a phrydlondeb rhagorol• Synnwyr digrifwch
Eraill	<ul style="list-style-type: none">• Ymrwymiad tuag at ethos, amcanion yr ysgol a'i chymuned.

Mai 2024